# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 45
08/02/21

## Nicodemus a'i gwestiynau

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes,
Elin Bryn a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org

# Stori



## Fersiwn Beibl.net

Un noson ar ôl iddi dywyllu daeth un o'r arweinwyr Iddewig at Iesu. Pharisead o'r enw Nicodemus oedd y dyn. Meddai wrth Iesu, “Rabbi, dŷn ni'n gwybod dy fod di'n athro wedi'i anfon gan Dduw i'n dysgu ni. Mae'r gwyrthiau rwyt ti'n eu gwneud yn profi fod Duw gyda ti.”



Dyma Iesu'n ymateb drwy ddweud hyn wrtho: “Cred di fi – all neb weld Duw'n teyrnasu heb fod wedi cael ei eni oddi uchod.”

“Sut gall unrhyw un gael ei eni pan mae'n oedolyn?” gofynnodd Nicodemus. “Allan nhw'n sicr ddim mynd i mewn i'r groth am yr ail waith i gael eu geni felly!”

Atebodd Iesu, “Cred di fi, all neb brofi Duw'n teyrnasu heb fod wedi cael ei eni drwy ddŵr a drwy'r Ysbryd. Mae'r corff dynol yn rhoi genedigaeth i berson dynol, ond yr Ysbryd sy'n rhoi genedigaeth ysbrydol. Ddylet ti ddim synnu wrth i mi ddweud, ‘Rhaid i chi gael eich geni oddi uchod.’ Mae'r gwynt yn chwythu i bob cyfeiriad. Ti'n clywed ei sŵn, ond ti ddim yn gallu dweud o ble mae'n dod nac i ble mae'n mynd. Felly mae hi hefyd gyda phawb sydd wedi'u geni drwy'r Ysbryd.”

“Sut mae hynny'n gallu digwydd?” gofynnodd Nicodemus.

“Dyma ti,” meddai Iesu, “yr athro parchus yng ngolwg pobl Israel, a ti ddim yn deall! Cred di fi, dŷn ni'n siarad am beth dŷn ni'n ei wybod, ac yn dweud am beth dŷn ni wedi'i weld, ond dych chi ddim yn ein credu ni. Os dw i wedi siarad â chi am bethau sy'n digwydd ar y ddaear a dych chi ddim yn credu, sut byddwch chi'n credu os gwna i siarad am bethau'r byd nefol? Does neb wedi bod i'r nefoedd, a fi, Mab y Dyn ydy'r unig un sydd wedi dod o'r nefoedd. Cododd Moses neidr bres ar bolyn yn yr anialwch. Bydda i, Mab y Dyn, yn cael fy nghodi yr un fath. Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn cael bywyd tragwyddol. Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol. Oherwydd anfonodd Duw ei Fab i achub y byd, dim i gondemnio'r byd. Dydy'r rhai sy'n credu ynddo ddim yn cael eu condemnio. Ond mae'r rhai sydd ddim yn credu wedi'u condemnio eisoes, am eu bod nhw wedi gwrthod credu ym Mab unigryw Duw. Dyma'r dyfarniad: Mae golau wedi dod i'r byd, ond mae pobl wedi caru'r tywyllwch yn fwy na'r golau. Pam? Am eu bod nhw'n gwneud pethau drwg o hyd. Mae pawb sy'n gwneud pethau drwg yn casáu'r golau. Maen nhw'n gwrthod dod allan i'r golau rhag ofn i'w gweithredoedd gael eu gweld. Ond mae'r rhai sy'n ufudd i'r gwir yn dod allan i'r golau, ac mae'n amlwg mai Duw sy'n rhoi'r nerth iddyn nhw wneud beth sy'n iawn.”



*Ioan 3:1-21 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Un noson aeth un o’r arweinwyr Iddewig at Iesu. Roedd Nicodemus yn ddyn clyfar a phwysig. Roedd o eisiau gwybod am yr holl bethau roedd Iesu’n eu ddysgu i’r bobl. Roedd ar Nicodemus ofn y byddai’r arweinwyr eraill yn ei weld yn siarad gyda Iesu a doedden nhw ddim yn hoffi Iesu. Dywedodd Nicodemus wrth Iesu “Rydw i yn gwybod fod Duw wedi dy anfon di ond mae yna rai pethau dwi ddim yn eu deall.” Atebodd Iesu, “Mae Duw’n caru pawb ac eisiau i bawb fod yn rhan o deyrnas Dduw ond rwyt ti angen credu ynddo cyn i ti gael bod yn rhan o’r deyrnas honno. Carodd Duw y byd cymaint fel yr anfonodd ei unig fab i’r byd er mwyn i’r rhai sydd yn ymddiried ynddo gael bywyd tragwyddol.” Aeth Nicodemus adref. Roedd ganddo lawer i feddwl amdano.

# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Pam wyt ti’n meddwl fod Nicodemus, arweinydd pwysig, yn mynd i siarad gyda Iesu ar ôl iddi dywyllu?
2. Pwy mae Duw wedi ei roi i’r byd i ddangos cymaint mae’n caru pawb yn y byd?
3. Faint wyt ti’n meddwl mae Duw yn dy garu?
4. Pam wyt ti’n meddwl ei bod yn bwysig credu yn Iesu?



# Gweddi fer




O Dduw, diolch i Ti am garu’r byd cymaint nes dy fod wedi
anfon Iesu, dy fab dy hun, i’r byd.
Plîs helpa fi i wybod pwy ydy Iesu a chredu ei fod yn fab i Ti.
Amen.


# Stori i'w lliwio

# Nicodemus


www.lambsongs.co.nz   Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)   Lluniau: Richard Gunther





"Sut y gallaf fi fynd i'r nefoedd?" Rydyn ni gyd yn gofyn y cwestiwn hwn ac fe ofynnodd Nicodemus hyn i Iesu hefyd. Dyma sydd wedi ei gofnodi yn y Beibl.




Clywodd Nicodemus Iesu'n siarad am Dduw. Roedd eisiau gwybod sut y gallai fynd i'r nefoedd felly un noson aeth i weld Iesu.




"Rydw i'n credu dy fod wedi dod oddi wrth Dduw. Ni allai'r un person wneud y gwyrthiau rwyf fi wedi dy weld di'n eu gwneud pe na byddai Duw gydag ef," meddai Nicodemus.




Dywedodd Iesu rywbeth pwysig iawn. " Mae'n wir os nad ydy person wedi ei eni o'r newydd ni fedr weld teyrnas Dduw."




Doedd Nicodemus ddim yn deall. "Sut fedra i fynd yn ôl yn fabi a chael fy ngeni unwaith eto? Rydw i'n rhy hen,"meddai.



"Mae'n rhaid i ti gael yr Ysbryd Glân ynot ti.Carodd Duw bawb cymaint nes iddo anfon ei Fab o'r nefoedd i'w hachub. Os wnei di gredu hyn fe wnei di fyw am byth," atebodd Iesu.



Yna deallodd Nicodemus! Iesu oedd unig fab Duw. Yn union fel mae babi'n tyfu fe dyfodd gariad Nicodemus tuag at Iesu.



Ac fel Nicodemus rydw i'n credu mai Iesu ydy Mab Duw. Wnes i weddïo a gofynnais iddo fod yn ffrind i mi. Gelli di weddïo a gofyn iddo fod yn ffrind i tithau hefyd.




# Dolenni

Fideo o'r stori
https://youtu.be/3m5lNwm5CmA



Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/hRQzE3Rjfe8







Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=8iA0W4Rdu5M

# Gweddi Greadigol

## Gloynnod byw trawsnewidiol




Mae newidiadau'n digwydd i ni drwy'r amser.
Mae rhai pobl yn hoffi newid. Dydy eraill ddim yn hoffi newid.
Mae rhai pobl yn teimlo'n gyffrous ond mae eraill yn teimlo'n bryderus.
Tybed, efallai, dy fod ti'n teimlo ychydig bach o'r ddau? Mae hynny'n iawn.
Os na fydd Siani Flewog yn newid, fydd hi byth yn troi'n löyn byw.

Tynna lun o löyn byw. Ysgrifenna ar un adain rywbeth rwyt ti wir wedi ei fwynhau. Ar yr adain arall, tynna lun neu ysgrifenna rywbeth rwyt ti'n edrych ymlaen ato'r wythnos hon.

---

## Mesur cariad



Yn y stori am Nicodemus, mae Iesu yn dweud pa mor fawr ydy cariad Duw tuag at bawb yn y byd. Mae'n amhosibl mesur cariad Duw!

**Bydd angen:** Pren mesur, tâp mesur, amserydd, llinyn, clorian (tafol), esgid, cwpan, reis, Google!

**Beth i'w wneud - llenwi'r bylchau:**

- Pa mor hir ydy dy esgid? ___ cm
- Pa mor dal wyt ti? ___ cm
- Pa mor llydan ydy dy law? ___ cm
- Faint o amser mae'n ei gymryd i ti neidio i fyny ac i lawr 20 o weithiau? ___ eiliad
- Defnyddia ddarn o linyn i fesur o gwmpas dy ben. ___ cm
- Faint mae llond cwpan o reis yn ei bwyso? ___ g
- Beth ydy'r pellter o gwmpas canol y byd (y cyhydedd)? _______ Km

**Gweddi:**
Rydyn ni'n gallu mesur y pethau hyn i gyd. Ond fedrwn ni ddim mesur cariad!
Meddylia am Dduw'n caru bob un person yn y byd! Mae hynny'n llawer iawn o gariad!
Meddylia am Dduw'n dy garu di. Rwyt ti'n arbennig iawn i Dduw.
Siarada gyda Duw am sut mae hynny'n gwneud i ti deimlo.

# Posau


| | | | |
|---|---|---|---|
| B | I | G | D |
| A | T | DD | L |
| W | O | Y | R |

## Gair cod

Edrycha ar y grid i ddod o hyd i bob llythyren i wneud dau air. Cychwynna ar y llythyren a ddangosir a dilyna gyfeiriad y saethau er mwyn cyrraedd y llythyren y dylet ei hysgrifennu isod.


| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y | T | G | W | O | | L | A | I | W | B | G | O | I | Y |
| ← | → | ← | → | ↑ | | ↓ | → | → | → | → | ← | ↑ | ↓ | ← |
| ↑ | → | ← | ↑ | → | | ← | → | ↓ | → | ↓ | ↓ | ↑ | → | ↑ |
| ↑ | ↓ | ↓ | → | → | | ← | → | ← | ↑ | ← | ↓ | → | ↓ | → |
| ← | ← | ↓ | ↓ | ↑ | | ↑ | ↓ | ← | ↑ | ↓ | → | ↓ | ← | → |

___ ___ ___ ___ ___ / ___ ___ ___ ___ ___ ___ ___ ___ ___



## Cysgod calonnau

Fedri di gysylltu'r galon gyda'r cysgod cywir?



## Datrys y cod

Allwedd i'r cod:

| A | B | C | CH | D | DD | E | F | FF | G | NG | H | I | L | LL | M | N | O | P | PH | R | RH | S | T | TH | U | W | Y |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |

16,1,7 5,26,27 27,7,5,13 3,1,21,26'21 2,28,5 3,28,16,1,13,17,24

17,7,23 13,6,18 21,18,13 7,13 26,17,13,10 8,1,2 7,21 16,27,28,17

13 2,27,28 2,28,17,17,1,10 23,28'17 3,21,7,5,26 28,17,6,18

2,7,13,5,13,18 16,28,17,5 13 6,13,23,24,21,28,27 18,17,5 3,1,7,14

2,28,27,28,5 24,21,1,10,27,28,6,18,14. 13,18,1,17 C:M

# Crefft

## DRYSFA ADNOD O'R BEIBL



**I wneud y ddrysfa adnod o'r Beibl:**

Bocs bwyd mawr,gwag, silindrau cardfwrdd,yr adnod o'r Beibl sydd ar waelod y dudalen, papur 'tissue' glas a gwyrdd, paent coch, brwsh, siswrn, glud, tâp selo, pelen fach bownsio/pelen fach o ffoil er mwyn chwarae'r gêm.






**1**.Yn ofalus agora'r bocs allan a thorra un ochr i ffwrdd ond paid â thorri'r fflapiau sydd arno.



**2**. Rho dâp selo i lynu'r corneli at ei gilydd er mwyn gwneud y bocs yn gadarn ac i rwystro'r bêl rhag rolio i ffwrdd wrth i ti chwarae'r gêm.



**3**. Torra'r silindrau cardfwrdd yn 9 twnel. Gelli ddefnyddio meintiau gwahanol ond gwna'n siŵr eu bod yn ffitio yn dy focs ac y bydd digon o le i dy bêl rolio o gwmpas.




**4**. Peintia'r silindrau cardfwrdd a'u gadael i sychu.



**5**. Rhwyga'r papur 'tissue' yn ddarnau llai.



**6**. Gorchuddia'r bocs â glud ac yna â'r papur 'tissue.' Wedyn gwna'n siŵr fod gennyt arwynebedd llyfn drwy rwbio'r glud dros y papur 'tissue.'




**7**. Torra'r adnod o'r Beibl yn 9 stribyn.



**8**. Gluda'r 9 stribyn i'r twneli gwahanol.



**9**. Rho'r twneli'n sownd yn y bocs gyda'r tâp selo.



**10**. Gluda dros y tâp selo ac ychwanega ragor o bapur 'tissue.'

Mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Ioan 3:16

**Mae dy gêm yn barod. Fedri di wneud i'r bêl fynd o gwmpas y ddrysfa gan ddefnyddio'r twneli i ddarllen yr adnod yn y drefn gywir?**


# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | A | CH | U | B | B | E | I | B | B | A | R |
| N | R | D | I | Y | S | I | E | S | U | G | Y |
| D | W | A | RH | D | A | N | A | G | D | E | S |
| I | E | D | G | U | N | E | F | O | E | DD | B |
| G | I | TH | W | W | R | G | O | W | R | M | R |
| O | N | B | Y | W | Y | D | I | R | C | D | Y |
| R | Y | O | R | B | E | DD | RH | F | TH | E | D |
| Y | DD | L | TH | W | T | N | O | F | N | A | Y |
| D | O | T | I | D | O | C | I | L | R | LL | I |
| M | L | D | A | E | S | I | R | A | PH | S | E |
| C | A | R | U | I | DD | G | I | N | U | O | S |
| I | CH | B | I | N | O | S | U | T | E | M | A |

ACHUB
ANFON
ARWEINYDD
ATHRO
BYD
BYTH
BYWYD
CARU
CODI
CREDU
DEALL
GENI
GWYRTHIAU
IESU
MAB
NEFOEDD
NOS
PHARISEAD
RABBI
RHOI
SIARAD
SUT
TEYRNAS
TRAGWYDDOL
UNIG
YSBRYD

# Sialensau

## Symudiadau



Beth am i ti fynd ati i ddysgu'r adnod hon ac i feddwl am symudiadau i gyd-fynd â'r geiriau? Gofynna i un o dy deulu dy ffilmio'n dweud yr adnod a gwneud y symudiadau.

Dyma'r adnod:

**"Mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol."**

## Pa mor hir mae'n para?

Gêm rygbi? __ Munud



Ysgol Gynradd? __ Mlynedd



Ionawr? __ Diwrnod



Diwrnod? ____ Eiliad




Tymor pêl-droed? __ Mis



Cariad Duw? _______________



Cynllunia lyfrnod gan ddefnyddio papur neu gerdyn ac arno ysgrifenna'r adnod sydd i'w dysgu yr wythnos hon. Cofia addurno'r llyfrnod hefyd. NEU…lliwia'r un isod a'i dorri allan!



# Gemau

## Coetiau



**Byddi angen:** Dau bostyn i ddal y coetiau.

Fe allet ti wneud y postyn drwy lynu plât papur i ddau neu dri silindr cardfwrdd (e.e.'kitchen roll') wedi eu gludo at ei gilydd i wneud un tiwb hir. Wnes i lenwi'r tiwb hir â marblis er mwyn dal y postyn yn gadarn yn ei le.
Gelli di wneud y coetiau allan o blatiau papur. Wnes i wneud chwech ohonynt ac un postyn. Fe allet ti wneud dau bostyn a deuddeg coeten fel dy fod yn gallu chwarae yn erbyn rhywun arall.

**Sut i chwarae:** Cymerwch eich tro i luchio'r coetiau dros y pyst.

Faint o amser gymeraist ti i'w cael i gyd dros y postyn? Meddylia am y ffaith fod Duw wedi dy garu di ers yn hirach na'r amser gymeraist ti i luchio pob coeten dros y postyn. Mae'n dy garu di erioed ac mi fydd yn dy garu am byth.



## Takraw

Gêm boblogaidd o Asia ydy'r gêm hon.

**Byddi angen:**
- Balŵn – i chwarae y tu mewn
- Pêl i chwarae y tu allan
- Mwy nag un chwaraewr

**Sut i chwarae:**
- Mae un chwaraewr yn cychwyn trwy basio'r balŵn i chwaraewr arall.
- Mae pob chwaraewr yn cael defnyddio unrhyw ran o'i gorff ac eithrio ei draed i basio'r balŵn o un chwaraewr i'r llall.
- Faint o weithiau fedrwch chi basio'r balŵn o un i'r llall heb iddo gyffwrdd â'r llawr?

# Canu



Cymaint wnaeth Duw garu'r byd
wnaeth O anfon ei unig Fab.
Pwy bynnag sy'n credu yn Iesu Grist
caiff fyw efo Duw am byth.

Ioan tri, undeg chwech.
Ioan tri, undeg chwech.



*Hawlfraint 2020 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/hRQzE3Rjfe8

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org